Gweithwyr mudol a Chredyd Treth Gwaith

Pwy sy'n weithiwr mudol

Gweithiwr mudol yw rhywun sydd wedi dod o dramor i weithio yn y DU. Yn aml mae gweithwyr mudol yn gweithio mewn gwestai neu dai bwyta, prosesu bwyd, casglu ffrwythau a chasglu pysgod cregyn.

Beth yw Credyd Treth Gwaith

Taliad i bobol sy'n gweithio ac ar incwm isel ydyw Credyd Treth Gwaith (CTG). Telir ef gan Gyllid a Thollau EM (HMRC). Fe allwch hawlio eich Credyd Treth Gwaith trwy ffonio llinell gymorth y credyd treth ar 0345 300 3900. Os derbynnir eich cais, bydd HMRC yn eich talu'n syth i'ch cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu, neu i gyfrif swyddfa'r post.

Pwy all dderbyn Credyd Treth Gwaith

Os ydych chi'n enedigol o'r DU, fe allwch dderbyn Credyd Treth Gwaith cyhyd â'ch bod yn byw yn y DU ac yn cwrdd â rhai amodau arbennig. Er mwyn cwrdd â'r amodau hyn rhaid i chi:

- fod yn 16 oed neu drosodd
- ennill yn llai na swm arbennig
- weithio o leiaf 30 awr yr wythnos.

Mewn rhai amgylchiadau, fe allwch hawlio CTG hyd yn oed os ydych ond yn gweithio 16 awr yr wythnos. Yr amgylchiadau hyn yw:

- gofalu am blant, *neu*
- yn anabl, *neu*
- dros 60 oed

Nid oes rhaid i chi gael plant i hawlio CTG ond os oes gennych blant, fe allwch gael arian ychwanegol i helpu gyda chostau gofal plant. Hefyd, fe allech chi gael Credyd Treth Plant yn ogystal â Chredyd Treth Gwaith, neu yn ei le.

Ni allwch dderbyn CTG os ydych chi dan 25 oed, oddieithr eich bod yn anabl neu os oes plant gennych. Mae hyn yn wir does wahaniaeth faint o oriau rydych yn eu gweithio mewn wythnos.

Hefyd, os ydych mewn perthynas a bod gennych blant, mae'n rhaid i chi weithio o leiaf 24 awr yr wythnos rhwng y ddau ohonoch, gydag un ohonoch yn gweithio o leiaf 16 awr.

Os oes partner gennych, rhaid i chi fel arfer wneud cais ar y cyd. Bydd HMRC yn cymryd incwm eich partner i ystyriaeth wrth benderfynu a oes hawl gennych i unrhyw CTG ai peidio.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Gweithwyr sy'n dod o dramor

Gweithwyr sy'n dod o Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir

Os ydych chi'n dod o un o wledydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu o'r Swistir fe allwch hawlio CTG, cyhyd â'ch bod yn cwrdd â'r amodau ynglŷn â faint o oriau y byddwch yn eu gweithio mewn wythnos, faint yw'ch enillion a beth yw'ch oedran. Rhaid eich bod yn gweithio'n gyfreithlon yn y DU.

Gweithwyr sy'n dod o wledydd y tu allan i'r AEE

Os ydych chi'n dod o wlad sydd y tu allan i'r AEE, fe allech chi dderbyn CTG. Rhaid i chi gwrdd â'r amodau arferol ynglŷn â faint o oriau yr ydych yn eu gweithio, faint yw'ch enillion a beth yw'ch oedran. Bydd yn rhaid i chi hefyd brofi eich bod yn gallu cwrdd â rhai **amodau preswylio**.

Beth ydyw'r amodau preswylio?

O dan yr amodau preswylio, er mwyn derbyn CTG rhaid i chi:

- beidio bod yn **destun rheolaeth mewnfudo**
- fod yn **bresennol yn gorfforol** yn y DU
- **gael eich prif gartref yn y DU.** Golyga hyn eich bod wedi dewis byw a setlo yma am y tro
- fynd dramor am gyfnodau byr yn unig, megis ar wyliau.

Dyma enghreifftiau o bobol **sy ddim** yn destun rheolaeth mewnfudo:

- os ydych wedi hawlio **noddfa** ac mae'r Swyddfa Gartref wedi dweud wrthych y gallwch aros yn y DU fel **ffoadur**
- mae'r Swyddfa Gartref wedi dweud wrthych fod caniatâd i chi aros yn y DU am gyfnod amhenodol, heb unrhyw amodau ynghlwm wrth y caniatâd**.**

Dyma enghreifftiau o bobol **sydd yn** destun rheolaeth mewnfudo:

- os yw'r Swyddfa Gartref wedi rhoi caniatâd i chi aros yn y DU (y cyfeirir ato fel caniatâd i ddod i mewn neu aros) ond dim ond ar yr amod eich bod ddim yn hawlio budd-daliadau, credydau treth neu gymorth tai y telir amdanynt gan lywodraeth y DU. Gelwir hyn yn **ddim hawl i gyllid cyhoeddus**.
- os oes angen caniatâd arnoch i aros yn y DU (caniatâd i ddod i mewn neu aros) ond dydych chi ddim yn ei gael.

Gall rhai pobol o rai gwledydd hawlio CTG, hyd yn oed os ydynt yn destun rheolaeth mewnfudo. Gwledydd megis **Croatia**, **Twrci** a **Macedonia** ydyw'r rhain sydd wedi cael cytundeb nawdd cymdeithasol gyda'r DU sy'n cynnwys credydau treth.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Os ydych chi'n destun rheolaeth mewnfudo ond nid yw'ch partner, er enghraifft, os ydyn nhw'n enedigol o'r DU neu AEE, fe allan nhw hawlio CTG ar gyfer y ddau ohonoch.

Am fwy o wybodaeth am a ydych yn destun rheolaeth mewnfudo ai peidio, ewch i wefan HMRC yn: www.hmrc.gov.uk

Os nad ydych yn siŵr os ydych yn destun rheolaeth mewnfudo ai peidio, fe ddylech gael cyngor oddi wrth ymgynghorydd profiadol cyn hawlio CTG. Fe allwch chi hefyd ffonio Llinell Gymorth Credyd Treth am gyngor (gweler isod).

Os wnewch chi gais am GTG heb fod gennych hawl i wneud hynny, fe allai effeithio'ch hawl i aros yn y DU.

Os ddaethoch chi i'r DU ond eich teulu wedi aros ar ôl

Os ddaethoch chi i'r DU o wlad sydd y tu allan i'r AEE neu'r Swistir fe allwch hawlio CTG i'ch teulu pan fyddan nhw'n cyrraedd y DU mewn gwirionedd.
Fyddwch chi ddim yn gallu hawlio CTG i chi na'ch teulu os ydych yn destun rheolaeth mewnfudo.

Os yw'ch teulu yn byw mewn gwlad arall sy'n perthyn i'r AEE fe allwch chi weithiau hawlio credydau treth iddyn nhw.

I wirio os allwch chi gael CTG os nad yw'ch teulu yn byw yn y DU, ewch i wefan HMRC yn: www.hmrc.gov.uk. Fe allwch chi hefyd ffonio llinell Gymorth Credyd Treth neu gael cyngor oddi wrth ymgynghorydd profiadol (gweler isod)

Gwledydd yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE)

- Awstria
- Ffrainc
- Ynys Cyprus
- Hwngari
- Slofenia
- Lwcsembwrg
- Gweriniaeth Iwerddon
- Rwmania
- Gwlad Belg
- Yr Almaen
- Malta
- Latvia
- Slovakia
- Yr Iseldiroedd
- Sweden
- Sbaen
- Denmarc
- Groeg
- Gweriniaeth Czech
- Lithwania
- Yr Eidal
- Norwy
- Gwledydd Prydain
- Y Ffindir
- Gwlad yr Ia
- Estonia
- Gwlad Pwyl
- Liechstenstein
- Portiwgal
- Bwlgaria

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Llinell Gymorth Credyd Treth
Gall Llinell Gymorth Credyd Treth roi cyngor i chi os ydych chi'n gallu cael credydau treth ai peidio. Mae ar agor o 8.00am tan 8.00pm bob dydd ar wahân i Ddydd y Nadolig, Gŵyl San Steffan a Dydd Calan. Y rhifau i'w ffonio yw: rhif ffôn 0845 300 3900 neu ffôn destun 0845 300 3909 - os ydych yn fyddar neu os oes gennych nam ar y clyw neu'r lleferydd.

Os ydych yn ffonio o dramor fe allwch hefyd gysylltu â'r Swyddfa Credyd Treth ar rif ffôn + 44 289 053 8192. Fe allwch chi hefyd ofyn i'r Llinell Gymorth am rywun i gyfieithu i chi pan fyddwch yn ffonio.

Asiantaeth Ffiniau'r DU
Am fwy o wybodaeth am faterion mewnfudo, ewch i wefan Asiantaeth Ffiniau'r DU yn www.bia.homeoffice.gov.uk . Ewch at Gweithio yn y DU ac yna i Ar gyfer Dinasyddion Ewropeaidd.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Gweithwyr mudol - hawliau yn y gwaith
- Gweithwyr mudol- treth ac yswiriant gwladol
- Credyd Treth Gwaith
- Budd-daliadau a chredydau treth i bobl sy'n gweithio
- Credyd Treth Plant
- Cymorth gyda phroblemau Mewnfudo

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith.

Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr, Cymru a'r Alban yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 6 Ebrill 2012, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk - lle gallwch lawrlwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr